OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 191

# Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

## RHAN 7

## Y GRANT SYLFAENOL A'R GRANT CYNHALIAETH

### PENNOD 3

### Y GRANT CYNHALIAETH

**Swm y grant cynhaliaeth: myfyrwyr llawnamser**

**46.**—(1) Mae Tabl 4 yn nodi uchafsymiau'r grant cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyriwr cymwys sy'n ymgymryd â chwrs llawnamser ("myfyriwr llawnamser") pan fo—

(a) Colofn 1 yn pennu'r flwyddyn academaidd y mae symiau'r grant cynhaliaeth a bennir yng Ngholofn 3 yn daladwy mewn perthynas â hi;

(b) Colofn 2 yn pennu'r lleoliad y mae'r myfyriwr yn byw ynddo (gweler paragraff 3 o Atodlen 1);

(c) Colofn 3 yn pennu uchafswm y grant sydd ar gael mewn cysylltiad â'r cofnodion cyfatebol yng Ngholofnau 1 a 2.

(2) Pan—

(a) na fo incwm aelwyd y myfyriwr yn fwy na £18,370, neu

(b) bo'r myfyriwr yn berson sy'n ymadael â gofal,

swm y grant cynhaliaeth sy'n daladwy yw uchafswm y grant sydd ar gael mewn cysylltiad â lleoliad y myfyriwr.

(3) Pan fo incwm aelwyd y myfyriwr yn fwy na £18,370 ond yn llai na £59,200, swm y grant cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr yw uchafswm y grant cynhaliaeth sydd ar gael wedi ei ostwng £1 am bob—

(a) £6.937 o incwm aelwyd sy'n fwy na £18,370 pan fo'r myfyriwr yn byw gartref;

(b) £4.475 o incwm aelwyd sy'n fwy na £18,370 pan fo'r myfyriwr yn byw oddi cartref, ac yn astudio yn Llundain;

(c) £5.750 o incwm aelwyd pan fo'r myfyriwr yn byw oddi cartref, ac yn astudio yn rhywle arall.

(4) Pan fo incwm aelwyd y myfyriwr llawnamser yn £59,200 neu ragor, swm y grant cynhaliaeth sy'n daladwy yw £0.

**Tabl 4**

| *Colofn 1 Blwyddyn academaidd* | *Colofn 2 Lleoliad y myfyriwr llawnamser* | *Colofn 3 Uchafswm y grant cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyriwr llawnamser* |
|---|---|---|
| Sy’n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2018 | Byw gartref | £5,885 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £9,124 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £7,100 |

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 46 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 12/03/2018. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.